# Cyngor Gwynedd

## Adroddiad ar archwiliad Rhyddid Gwybodaeth

Ebrill 2025

Information Commissioner's Office

# Crynodeb gweithredol

## Methodoleg yr Archwiliad

Y Comisiynydd Gwybodaeth sy’n gyfrifol am orfodi a hyrwyddo cydymffurfiaeth â’r ddeddfwriaeth diogelu data, yn ogystal â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR). Mae adran 47 o Ddeddf 2000 yn cynnwys darpariaeth i'r Comisiynydd asesu a yw awdurdod cyhoeddus yn dilyn arferion da, gan gynnwys cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a darpariaethau'r codau ymarfer o dan adrannau 45 a 46.

Mae'r ICO yn rheoleiddiwr annibynnol, cymesur ac mae'n gweld archwilio fel proses adeiladol ac iddi fuddion gwirioneddol i awdurdodau cyhoeddus ac felly mae'n anelu at sefydlu dull cyfranogol. Gall safonau uchel o gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol helpu awdurdodau cyhoeddus i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

Gofynnodd Cyngor Gwynedd (y Cyngor) am archwiliad cydsyniol o'u harferion Rhyddid Gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfarfod rhagarweiniol dros y ffôn ar 24 Ionawr 2025 gyda chynrychiolydd o'r Cyngor i drafod rhychwant yr archwiliad.

Diben yr archwiliad yw rhoi sicrwydd annibynnol i'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Cyngor o ran i ba raddau y mae'r Cyngor, o fewn rhychwant yr archwiliad y cytunwyd arno, yn cydymffurfio â gofynion Deddf 2000 a’r EIR.

Cytunwyd y byddai'r archwiliad yn canolbwyntio ar y maes canlynol:

| Maes y rhychwant | Disgrifiad |
|---|---|
| **Rhyddid Gwybodaeth** | I ba raddau y mae atebolrwydd, polisïau a gweithdrefnau, rheolaethau mesur perfformiad, a dulliau adrodd i fonitro cydymffurfiaeth ym maes rhyddid gwybodaeth/EIR yn eu lle ac yn weithredol ledled yr awdurdod cyhoeddus. |

Mae archwiliadau’n cael eu cynnal gan ddilyn methodoleg archwilio'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yr elfennau allweddol yn hyn o beth yw adolygiad desg o bolisïau a gweithdrefnau dethol, cyfweliadau o bell â staff dethol, ac adolygiad rhithwir o ddogfennau tystiolaeth.


Lle nodwyd gwendidau, mae argymhellion wedi’u gwneud, yn bennaf ynghylch gwella’r prosesau presennol i hwyluso’r gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol. I helpu’r Cyngor i roi’r argymhellion ar waith, mae pob un wedi cael sgôr flaenoriaeth ar sail y risgiau y bwriedir iddyn nhw fynd i'r afael â nhw. Mae'r sgoriau wedi’u rhoi ar sail asesiad yr ICO o'r risgiau dan sylw. Gall blaenoriaethau’r Cyngor a’u parodrwydd i dderbyn risg amrywio ac, felly, fe ddylen nhw gynnal eu hasesiadau eu hunain o'r risgiau sydd wedi’u nodi.

# Crynodeb o'r Archwiliad

| Maes rhychwant yr Archwiliad | Sgôr Sicrwydd | Barn Gyffredinol |
|---|---|---|
| **Rhyddid Gwybodaeth** | RHESYMOL | Mae yna lefel resymol o sicrwydd bod prosesau a gweithdrefnau ar waith ac yn sicrhau y cydymffurfir â Rhyddid Gwybodaeth . Mae'r archwiliad wedi nodi rhywfaint o le i wella'r trefniadau presennol er mwyn lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio â Deddf 2000. |


*Mae'r sgoriau sicrwydd uchod yn adlewyrchu'r fethodoleg archwilio o bell sydd wedi'i defnyddio ac mae'n bosibl na fydd y sgôr o reidrwydd yn cynrychioli asesiad cynhwysfawr o gydymffurfiaeth.

## Blaenoriaethau’r Argymhellion




Mae'r siart bar uchod yn dangos dadansoddiad o'r blaenoriaethau sydd wedi’u rhoi i'n hargymhellion a wnaed fel rhan o'r archwiliad hwn. Mae chwe argymhelliad â blaenoriaeth uchel, 13 o argymhellion â blaenoriaeth ganolig ac un argymhelliad â blaenoriaeth isel.

# Graffiau a Siartiau




Mae'r siart cylch uchod yn dangos crynodeb o'r sgoriau sicrwydd a ddyfarnwyd. 36% sicrwydd uchel, 26% sicrwydd rhesymol, 35% sicrwydd cyfyngedig, 3% sicrwydd cyfyngedig iawn.

## Meysydd allweddol i’w gwella

Cafodd meysydd allweddol eu nodi yn ein harchwiliad lle roedd angen i'r Cyngor roi mesurau pellach ar waith er mwyn cydymffurfio â Deddf 2000 a'r EIR.

- Rhaid i'r Cyngor sicrhau eu bod yn parhau i wella’u perfformiad FOI/EIR er mwyn cydymffurfio ag amserlenni statudol ar gyfer ymateb i geisiadau FOI/EIR.
- Dylai'r Cyngor gyflwyno hyfforddiant gorfodol ar FOI/EIR i’r holl staff ar draws y Cyngor, a hwnnw'n cael ei adnewyddu o dro i dro. Dylai'r hyfforddiant fod yn ddigon manwl fel bod gan y staff ddealltwriaeth glir o sut mae FOI/EIR yn gymwys i'r Cyngor a sut i adnabod cais FOI/EIR. Dylid darparu hyfforddiant FOI/EIR arbenigol ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau FOI/EIR.
- Er mwyn cael sicrwydd ar ansawdd yr ymatebion FOI/EIR sy'n cael eu hanfon allan, dylai'r Cyngor gynnal ymarferion hapsamplu annibynnol ffurfiol i wirio ansawdd y ceisiadau FOI/EIR sydd wedi'u cwblhau.
- I helpu i warantu cysondeb, dylid cyflwyno canllawiau dogfennol i helpu’r staff i ymdrin yn gywir â cheisiadau hybrid sy'n cyfuno ceisiadau FOI/EIR â Chais Testun am Weld Gwybodaeth (SAR).

## Meysydd sicrwydd allweddol

Adeg yr archwiliad ac ar sail y dystiolaeth a welwyd gan archwilwyr yr ICO, roedd mesurau ar waith ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol i gyflawni'r amcanion rheoli yn y meysydd allweddol a ganlyn.

- Mae tîm Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor yn darparu cyngor a chanllawiau yn rheolaidd ar faterion FOI/EIR i staff ledled y Cyngor. Lle mae angen cefnogaeth gydag ymateb FOI/EIR, maen nhw yn aml yn cynnal cyfarfodydd i drafod unrhyw bryderon.

- Mae canllawiau ar gael ar wefan y Cyngor sy'n helpu unigolion o ran sut i ofyn am wybodaeth o dan FOI/EIR.
- Mae'r Cyngor yn cadw cofnod dogfennol o'r ceisiadau sy’n dod i law ac yn cael eu trin. Mae hyn yn eu galluogi i fonitro statws y cais o'r adeg y mae’n dod i law hyd at ei gwblhau.
- Mae gan y Cyngor nifer o dempledi ymateb Rhyddid Gwybodaeth i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir wrth ymateb i geisiadau yn bodloni’r gofynion statudol.

# Canfyddiadau'r archwiliad

## Meysydd lle nad oes cydymffurfiaeth ac argymhellion

Mae'r tabl isod yn manylu ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod ein harchwiliad; mae'n cynnwys argymhellion ar sut y gallai'r gwelliannau hynny gael eu cyflawni.

| **Rhyddid Gwybodaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| Mae adnoddau digonol wedi'u neilltuo i ymdrin â cheisiadau am wybodaeth i sicrhau ymateb o fewn yr amserlenni statudol. | A.01. Mae'r Cyngor wedi rhoi cyfrifoldeb am ymdrin â cheisiadau i staff ar draws y Cyngor. Er hynny, dywedwyd yn ystod y cyfweliadau nad yw'r staff sy'n gyfrifol am ymateb i geisiadau FOI/EIR bob amser yn cael digon o amser wedi'i neilltuo i'w cyfrifoldebau FOI/EIR.<br><br>Os nad oes digon o adnoddau, yna mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn methu ag ymateb i geisiadau o fewn y dyddiadau cau statudol. Gall hyn dorri adran 10 o Ddeddf 2000 neu Reoliad 5(2) o'r EIR. | A.01. Dylai'r Cyngor sicrhau bod gan bob aelod o staff sydd â chyfrifoldeb FOI/EIR ddigon o amser wedi'i neilltuo i'w cyfrifoldebau FOI/EIR. Dylai'r Cyngor barhau i gwblhau adolygiadau cyfnodol, wedi'u dogfennu o'r lefelau staffio o'u cymharu â'r llwyth gwaith a'r perfformiad o'i gymharu â'r amserlenni statudol. Lle bo modd, dylid cael cyfleuster wedi'i ddogfennu i dynnu adnoddau ychwanegol ar gyfer ceisiadau sy'n cymryd llawer o amser neu lle ceir brys, neu os ceir niferoedd anarferol o uchel.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol. | Canolig |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| Mae gan yr awdurdod cyhoeddus gynllun cyhoeddi ar waith sydd wedi'i gymeradwyo gan yr ICO. | A.02.a. Mae gan y Cyngor gynllun cyhoeddi ar waith sydd ar gael ar eu gwefan. Mae'r cynllun yn nodi ymrwymiad y Cyngor i sicrhau bod rhai dosbarthiadau o wybodaeth ar gael fel rhan o’r drefn, megis polisïau a gweithdrefnau, cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau blynyddol a gwybodaeth ariannol. Ond, nid yw rhai aelodau staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau yn ymwybodol o'r wybodaeth sydd ar gael drwy'r cynllun cyhoeddi.<br><br>Os nad yw’r staff yn ymwybodol o'r wybodaeth a gyhoeddir drwy'r cynllun cyhoeddi, fe allen nhw dreulio amser yn coladu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ymateb sydd eisoes wedi'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor.<br><br>A.02.b. Ar ben y cynllun cyhoeddi, mae'r Cyngor wedi dechrau cyhoeddi gwybodaeth trwy Ddata Agored ar eu gwefan. Er hynny, gan fod y prosiect hwn yn dal yn ei fabanod, gwybodaeth gyfyngedig yn unig sydd wedi'i chyhoeddi trwy Ddata Agored. Os nad yw'r Cyngor wrthi’n darparu gwybodaeth yn rhagweithiol, gall hyn arwain at fwy o geisiadau FOI/EIR. | A.02.a. Dylai'r Cyngor sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau FOI/EIR yn ymwybodol o'r wybodaeth sydd ar gael drwy'r cynllun cyhoeddi. Bydd hyn yn helpu i warantu bod y staff yn cyfeirio ceiswyr at wybodaeth sydd wedi’i chyhoeddi lle mae gwybodaeth eisoes ar gael drwy'r cynllun.<br><br>A.02.b. Dylai'r Cyngor barhau i gyhoeddi gwybodaeth drwy Ddata Agored, gan dderbyn mewnbwn gan y staff perthnasol ynghylch y data y byddai'n fwyaf buddiol ei gyhoeddi'n rhagweithiol. Bydd hyn yn helpu’r staff gyda cheisiadau FOI/EIR sydd wedi dod i law. | Canolig |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n esbonio ymagwedd yr awdurdod cyhoeddus at reoliadau Rhyddid Gwybodaeth ac EIR a'r cyfrifoldebau drostyn nhw. | A.03.a. Mae gan y Cyngor bolisi Rhyddid Gwybodaeth ac EIR sy'n esbonio'u hymagwedd at Ryddid Gwybodaeth a'r EIR a'u cyfrifoldebau drostyn nhw. Dywedwyd yn ystod y cyfweliadau fod y polisi i'w adolygu bob dwy flynedd. Mae'r wybodaeth am reoli fersiynau'r polisi yn nodi mai 2023 oedd y tro diwethaf iddo gael ei adolygu, ond dim ond tair gwaith mae wedi'i adolygu ers ei roi ar waith yn 2005.<br><br>A.03.b. Mae polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ar Ryddid Gwybodaeth a'r EIR yn rhoi manylion cysylltu'r ICO i'r staff, gan gynnwys gwefan yr ICO, ond mae'r wefan a roddir (ico.gov.uk) yn anghywir.<br><br>Os nad yw polisïau'n cael eu hadolygu yn unol â'r dyddiadau adolygu, all y Cyngor ddim bod yn siŵr eu bod yn gyfredol ac yn addas i'w diben. | A.03. Dylai'r Cyngor sicrhau bod y polisi Rhyddid Gwybodaeth ac EIR yn cael ei adolygu o dro i dro i warantu eu bod yn dal yn gyfredol ac yn addas i'w diben. Gallai'r Cyngor greu amserlen wedi'i dogfennu o'r adolygiadau ar gyfer eu holl bolisïau a gweithdrefnau FOI/EIR i sicrhau eu bod i gyd yn cael eu hadolygu yn unol â'r dyddiadau adolygu.<br><br>A.03.b. Dylai'r Cyngor sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n cynnwys manylion cysylltu'r ICO yn cael eu diwygio i gynnwys y wefan gywir, ico.org.uk, er mwyn i'r staff gael mynediad at ragor o wybodaeth os oes ei hangen. | Canolig |
| Mae polisïau a gweithdrefnau yn hawdd eu cyrraedd i'r staff. | A.04. Mae polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ar gael ar y fewnrwyd ond does gan y Cyngor ddim prosesau i sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi darllen ac wedi deall y polisïau a'r gweithdrefnau hyn. Nid yw rhai aelodau staff sydd â chyfrifoldeb am drin ceisiadau yn cyfeirio at y dogfennau hyn. | A.04. Dylai'r Cyngor sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi darllen ac wedi deall y polisïau a'r gweithdrefnau ar Ryddid Gwybodaeth a'r EIR. Dylai'r polisïau a'r gweithdrefnau fod ar gael mewn fformat nad yw'n electronig i staff nad oes ganddyn nhw fynediad at gyfrifiadur. | Canolig |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| | Os nad yw’r staff yn edrych ar bolisïau a gweithdrefnau FOI/EIR, gall staff gwahanol ymateb i sefyllfaoedd mewn ffyrdd gwahanol, gan arwain at gamau anghyson gan y Cyngor, a’r rheiny o bosibl heb fod yn cydymffurfio. | Bydd hyn yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r cyfarwyddiadau dogfennol a safonedig sydd ar gael iddyn nhw eu dilyn. | |
| Mae'r awdurdod cyhoeddus yn sicrhau bod y staff yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau yn y polisïau a’r gweithdrefnau ynghylch rheoliadau FOI/EIR. | A.05. Pan fydd polisi neu weithdrefn FOI/EIR wedi'u diwygio, mae’n ymddangos yn goch ar fewnrwyd pob aelod o’r staff, gan droi'n wyrdd pan fyddan nhw wedi’i ddarllen ac wedi'i dderbyn. Ond nid yw'r Cyngor yn mynd ati i gyfleu newidiadau mewn polisïau a gweithdrefnau FOI/EIR. Pan nad yw’r staff yn cyrchu adran bolisi'r fewnrwyd yn gyson, mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fyddan nhw’n ymwybodol o'r polisïau neu'r gweithdrefnau sydd wedi'u diweddaru.<br><br>Os na fydd newidiadau polisi yn cael eu mynegi i’r staff, gall hyn olygu y bydd staff gwahanol yn prosesu ceisiadau mewn ffyrdd gwahanol, a gall arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â’r gofynion statudol. | A.05. Dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i bolisïau a gweithdrefnau FOI/EIR yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol i’r staff trwy wahanol ddulliau, megis y fewnrwyd a negeseuon ebost i’w hatgoffa. Dylai'r Cyngor olrhain a yw’r staff wedi darllen ac wedi deall y polisïau neu'r gweithdrefnau diwygiedig ai peidio.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau nad yw’r staff yn gweithredu heb fod yn ymwybodol o bolisïau sydd wedi newid. | Canolig |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| Mae polisïau a gweithdrefnau FOI/EIR yn disgrifio gwybodaeth bersonol a sut y dylid ymdrin â hi. | A.06. Er bod gan y Cyngor rai canllawiau ar FOI/EIR sy'n disgrifio gwybodaeth bersonol a sut y dylid ei thrin, nodwyd yn y cyfweliadau nad yw rhai aelodau staff yn ymwybodol o sut i ddelio â cheisiadau hybrid yn gywir (ceisiadau FOI/EIR ar y cyd ag SAR).<br><br>Os nad yw'r staff yn ymwybodol o sut i drin ceisiadau hybrid, gall y Cyngor dorri deddfwriaeth Diogelu Data drwy ddatgeliad diawdurdod neu amhriodol. | A.06. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddyn nhw ganllawiau clir, wedi'u dogfennu, i helpu'r staff i ymdrin yn gywir â cheisiadau hybrid sy'n cyfuno ceisiadau FOI/EIR ag SAR. Dylai'r canllawiau amlinellu'r broses i'w dilyn i olygu data personol nad yw i gael ei ddatgelu fel rhan o'r cais FOI/EIR yn briodol. Dylai'r canllawiau hefyd gynnwys gofyniad i roi gwybod am doriadau Data Personol posibl sy'n codi wrth drin cais Rhyddid Gwybodaeth neu gais EIR. Bydd hyn yn sicrhau bod ymatebion FOI/EIR yn cadw at y ddeddfwriaeth Diogelu Data. | Uchel |
| Mae'r awdurdod cyhoeddus yn sicrhau bod ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac EIR sy'n dod i law yn cael eu adnabod yn briodol gan ei staff. | A.07. Mae'r mwyafrif o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac EIR yn dod i'r mewnflwch Rhyddid Gwybodaeth. Swyddog cymorth y Cyngor yn yr adran gorfforaethol sy'n gyfrifol am brysbennu ceisiadau a sicrhau eu bod yn cael eu hadnabod yn briodol. Yna maen nhw'n cael eu gweinyddu i gydlynydd Rhyddid Gwybodaeth yn yr adran sydd debycaf o fod â'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Ond mae achosion wedi bod lle gallai staff fod wedi cael cais FOI/EIR yn uniongyrchol i'w mewnflwch nhw ac wedi delio ag ef fel busnes fel arfer, yn hytrach nag o dan y drefn | A.07. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r broses sydd ar waith i nodi a gwahaniaethu rhwng ceisiadau FOI, EIR a SAR, er mwyn i'r rhain gael eu trin yn gywir o dan bob cyfundrefn unigol. Dylai'r staff ym mhob adran fod yn ymwybodol o sut i sianelu ceisiadau i'r mewnflwch Rhyddid Gwybodaeth a phwysigrwydd dyddiadau cau.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu adnabod ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac EIR er mwyn eu trin | Canolig |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| | briodol, gan nad oedden nhw'n sylweddoli mai cais FOI/EIR oedd o.<br><br>Os nad yw'r staff yn adnabod ceisiadau am wybodaeth yn briodol, efallai na fyddan nhw'n cael eu trin yn briodol nac yn cael ymateb o fewn yr amserlenni statudol. | yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol. | |
| Mae gan yr awdurdod cyhoeddus broses i adnabod ceisiadau blinderus, ceisiadau sy'n amlwg yn afresymol a cheisiadau ailadroddus ac ymateb iddyn nhw. | A.08. Mae gan dudalen tri o'r ddogfen *'Canllawiau gweithredu ar gyfer ceisiadau hawl i wybodaeth'* rywfaint o wybodaeth am geisiadau blinderus ac ailadroddus. Mae'n dweud *"Os ydych yn credu bod y cais yn un blinderus, wedi bod o'r blaen, neu'n rhan o ymgyrch, dylech gysylltu â'r Rheolwr Gwybodaeth".* Ond, nid yw'n amlinellu'r broses at drin ceisiadau o'r fath nac yn dogfennu unrhyw wybodaeth am geisiadau sy'n amlwg yn afresymol o dan drefn yr EIR.<br><br>Dywedwyd yn ystod y cyfweliadau nad yw rhai aelodau staff sy'n delio â cheisiadau FOI/EIR yn gwybod sut i adnabod ceisiadau blinderus, amlwg afresymol ac ailadroddus.<br><br>Heb broses sydd wedi'i dogfennu i adnabod ceisiadau o'r fath ac ymateb iddyn nhw, gall gwrthodiadau fod yn | A.08. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod eu *'Canllawiau gweithredu ar gyfer ceisiadau hawl i wybodaeth'* ac unrhyw ganllawiau ategol eraill yn cynnwys manylion ar sut i adnabod ceisiadau blinderus ac ymateb iddyn nhw (adran 14(1) o Ddeddf 2000), ceisiadau sy'n amlwg yn afresymol (rheoliad 12(4)(b) o'r EIR) a cheisiadau ailadroddus yn unol â'r ddeddfwriaeth. Rhaid rhannu'r broses hon gyda'r staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau FOI/EIR fel eu bod yn gallu adnabod ceisiadau o'r fath ac ymateb iddyn nhw, os oes angen, yn briodol ac yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.<br><br>Mae canllawiau ar geisiadau blinderus, ceisiadau sy'n amlwg yn afresymol a cheisiadau ailadroddus i'w gweld ar wefan yr ICO. | Canolig |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| | anghyson gan fentro methu cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth. Gall methu adnabod y ceisiadau hyn hefyd effeithio ar allu'r Cyngor i fodloni'r dyddiadau cau statudol. | | |
| Mae yna fecanweithiau i fonitro ansawdd yr ymatebion i geisiadau. | A.09. Chafodd archwilwyr yr ICO ddim sicrwydd bod ymarferion hapsamplu annibynnol i wirio ansawdd yn cael eu cynnal o dro i dro ar geisiadau sydd wedi'u cwblhau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn golygu nad oes gan y Cyngor drosolwg lefel uchel o ansawdd ymatebion FOI/EIR ym mhob maes, felly maen nhw'n methu rhoi sicrwydd bod ansawdd yr ymatebion yn gyson ar draws y Cyngor.<br><br>Os nad oes yna fonitro, efallai na fydd y Cyngor yn ymwybodol a ydyn nhw'n ymateb yn briodol i geisiadau, a allai arwain at ddiffyg cydymffurfio statudol. | A.09. Dylai'r Cyngor sicrhau bod ymarferion hapsamplu annibynnol i wirio ansawdd yn cael eu cynnal ar geisiadau sydd wedi'u cwblhau. Dylai'r gwiriadau hyn gael eu ffurfioli a'u cwblhau o dro i dro gan staff priodol, fel y tîm Llywodraethu Gwybodaeth, er mwyn cael sicrwydd ar ansawdd yr ymatebion sy'n cael eu hanfon ar draws y Cyngor. Dylid bwydo problemau gydag ansawdd ymatebion a nodir yn ystod y gwiriadau hyn yn ôl i'r staff perthnasol, sydd wedyn yn cael eu hailhyfforddi lle bo angen.<br><br>Bydd hyn yn helpu i warantu bod ymatebion y Cyngor i geisiadau yn briodol ac yn drylwyr. | Canolig |
| Mae'r awdurdod cyhoeddus yn cydymffurfio ag amserlenni statudol ar gyfer rheoliadau FOI/EIR. | A.10. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i wella'u cydymffurfiaeth ag amserlenni statudol FOI/EIR, megis creu adroddiadau cyson i amlygu adrannau nad ydyn nhw'n bodloni'r dyddiadau cau i ymateb. Ond, mae'r ffigurau a ddarparwyd gan y Cyngor yn dangos mai | A.10. Dylai'r Cyngor barhau â'u cynlluniau i wella'u cydymffurfiaeth FOI/EIR ar draws y Cyngor. Pan nad yw adran yn cydymffurfio ag amserlenni statudol yn gyson, dylid cymryd camau i helpu'r adran i wella'i chydymffurfiaeth. | Uchel |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| | 75.5% oedd cyfradd gydymffurfio gyfartalog y Cyngor ar gyfer Ebrill 2024-Mawrth 2025, ymhell o dan gyfradd gydymffurfio ddisgwyliedig yr ICO, sef 95%.<br><br>Os nad yw'r amserlenni'n cael eu bodloni, mae'r cyngor mewn perygl o beidio â chydymffurfio â gofynion statudol. | At hyn, dylai'r Cyngor sicrhau bod FOI/EIR yn cael ei ystyried o'r cychwyn cyntaf lle mae mentrau polisi newydd yn cael eu cyflwyno neu lle y gellir rhag-weld digwyddiadau arwyddocaol. Yn yr achosion hyn, dylai'r Cyngor roi cynllun ar waith i gyhoeddi gwybodaeth berthnasol yn rhagweithiol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol. | |
| Mae gweithdrefnau adolygu mewnol yn cydymffurfio â'r Codau Ymarfer perthnasol ac yn sicrhau bod ymatebion amserol yn cael eu darparu i gwynion. | A.11. Mae gan y Cyngor weithdrefn adolygu fewnol, sy'n nodi mai'r swyddog monitro sy'n gyfrifol am gynnal adolygiadau mewnol. At hyn, mae eu templedi llythyrau ymateb yn rhoi manylion i'r ceiswyr am sut i ofyn am adolygiad mewnol os ydyn nhw'n anfodlon â'r ymateb a gafwyd. Er bod cyfrifoldeb am gynnal adolygiadau wedi'i ddyrannu, nid yw adolygiadau mewnol bob amser yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen statudol o 20 diwrnod gwaith.<br><br>Pan nad yw adolygiadau mewnol yn cael ymateb o fewn yr amserlen statudol, gallai'r Cyngor fethu â datrys cwynion yn effeithiol a gall fod yn destun mwy o gwynion i'r ICO. | A.11. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod pob adolygiad mewnol yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlen statudol a bod ymatebion i gwynion yn cael eu darparu'n brydlon. Bydd hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn cadw at eu rhwymedigaethau wrth ymdrin â chwynion yn briodol yn unol â Chodau Ymarfer adran 45 ar drin ceisiadau, Codau Ymarfer adran 46 ar arferion rheoli cofnodion a Chodau Ymarfer adran 16 ar y ddyletswydd i ddarparu cyngor a chymorth. | Canolig |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| Dylai esemptiadau/ eithriadau gael eu cymhwyso fesul achos, gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, heb unrhyw dystiolaeth o ddefnyddio esemptiadau/eithriadau yn ddiwahân. | A.12.a. Dywedwyd yn y cyfweliadau mai cyfyngedig yw'r ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor am esemptiadau (FOI) ac eithriadau (EIR). Efallai y bydd staff sydd â chyfrifoldeb am ymateb i geisiadau yn ymwybodol o pryd y gall fod angen cymhwyso esemptiad/eithriad ond yn methu adnabod yr un mwyaf priodol. Er bod rhai canllawiau wedi'u dogfennu ar waith, nid yw'r staff yn cyfeirio atyn nhw yn gyson.<br><br>A.12.b. Mae dogfen *'Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol'* y Cyngor yn anghywir yn cyfeirio at Ddeddf Diogelu Data 1998 yn hytrach na Deddf Diogelu Data 2018. At hyn, mae'r *'siart llif Rhyddid Gwybodaeth'* yn cyfeirio'n anghywir at ***eithriadau*** Rhyddid Gwybodaeth yn hytrach nag esemptiadau Rhyddid Gwybodaeth.<br><br>A.12.c. Nid yw rhai aelodau staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau FOI/EIR wedi'u hyfforddi ar esemptiadau/ eithriadau.<br><br>Os oes staff sydd heb eu hyfforddi yn gyfrifol am gymhwyso esemptiadau/ eithriadau, mae'r Cyngor yn mentro | A.12.a. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod gan y staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau FOI/EIR ddealltwriaeth glir o esemptiadau/eithriadau a'u bod yn cymhwyso'r rhain fesul achos, gan gynnwys lle bo'n gymwys, cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus.<br><br>A.12.b. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod eu holl ganllawiau ar esemptiadau ac eithriadau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i'w diben. Dylai'r canllawiau adlewyrchu'n gywir esemptiadau ar gyfer Rhyddid Gwybodaeth ac eithriadau ar gyfer EIR.<br><br>A.12.c. Dylai'r holl staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau FOI/EIR fod wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio esemptiadau ac eithriadau. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor nad oes rheolau diwahân yn cael eu cymhwyso ar gyfer esemptiadau/eithriadau, a bod y rhai sy'n gyfrifol am eu cymhwyso wedi cael eu hyfforddi'n briodol i wneud hynny.<br><br>Ceir rhagor o ganllawiau ar | Uchel |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| | cymhwyso'r rhain yn anghywir, neu na fyddan nhw'n cael eu cymhwyso o gwbl. | esemptiadau, eithriadau a'r prawf budd cyhoeddus ar wefan yr ICO. | |
| Mae yna dystiolaeth o broses oruchwylio neu gymeradwyo ar gyfer defnyddio esemptiadau/eithriadau. | A.13. Yn aml, ymgynghorir â'r swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a'r Uwch Swyddog Diogelu Data Statudol (SSDPO) ar ymatebion drafft lle mae esemptiad/eithriad wedi'i gymhwyso. At hyn, mae rhai ymatebion lle mae esemptiadau/eithriadau wedi'u cymhwyso yn cael eu hadolygu gan reolwyr cyn i'r ymatebion gael eu rhoi i'r ceiswyr. Ond ar sail ad hoc y gwneir hyn, am nad oes gan y Cyngor broses wedi'i dogfennu ar waith i sicrhau bod goruchwyliaeth a chymeradwyaeth rheolwyr yn cael ei sicrhau, lle bo'n berthnasol, ar gyfer cymhwyso esemptiadau/eithriadau.<br><br>Lle nad oes proses oruchwylio neu gymeradwyo, gall y Cyngor fod yn camgymhwyso esemptiadau neu eithriadau. | A.13. Dylai'r Cyngor greu proses wedi'i dogfennu sy'n amlinellu pa esemptiadau/eithriadau ddylai gael eu goruchwylio a'u cymeradwyo gan y rheolwyr, lle bo'n berthnasol, cyn i ymateb gael ei anfon allan. Ar ôl creu'r broses, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am drin ceisiadau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol ohoni. Dylai'r canllawiau gofnodi'r gofyniad am hapsamplu i wirio ansawdd esemptiadau/eithriadau sydd wedi'u cymhwyso i sicrhau eu bod wedi'u cymhwyso'n gywir.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau bod defnydd y Cyngor o esemptiadau neu eithriadau yn dod o dan broses gymeradwyo sydd wedi'i dogfennu priodol, ac nid yn dibynnu farn un unigolyn yn unig. | Canolig |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| Dylai golygiadau gael eu defnyddio fesul achos, gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, a dylid cadw cofnodion o'r hyn sydd wedi'i olygu. | A.14. Mae gan y Cyngor ganllawiau golygu ar waith i helpu’r staff i ddeall y broses olygu a sut i ddefnyddio'r teclyn golygu. Mae'r swyddog Llywodraethu Gwybodaeth hefyd yn rhoi cyngor i’r staff ar olygu lle bo’i angen. Hefyd, mae'r swyddog cymorth yn aml yn gwirio ymateb drafft i sicrhau ei fod wedi'i olygu'n gywir. Ond, nid yw’r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar beth i'w olygu, a sut.<br><br>Os defnyddir golygiadau’n amhriodol, gall y Cyngor ddatgelu gwybodaeth a ddylai aros yn gyfrinachol. | A.14. Dylai staff sydd â chyfrifoldeb dros ymateb i geisiadau FOI/EIR gael hyfforddiant rheolaidd ar beth i'w olygu, a sut. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod y staff wedi'u hyfforddi'n briodol ac mai dim ond yr wybodaeth angenrheidiol sy'n cael ei golygu. | Canolig |
| Mae yna dystiolaeth o broses oruchwylio neu gymeradwyo ar gyfer defnyddio golygiadau. | A.15. Mae'r ICO yn cydnabod bod y swyddog Llywodraethu Gwybodaeth yn aml yn trafod ymatebion drafft lle mae golygiadau wedi'u defnyddio gyda’r staff a’i fod weithiau yn golygu'r wybodaeth ar eu rhan. Er hynny, yn debyg i A.13, nid yw proses gymeradwyo'r Cyngor ar gyfer defnyddio golygiadau wedi'i dogfennu.<br><br>Mewn achosion lle nad oes proses oruchwylio neu gymeradwyo, gall golygiadau gael eu defnyddio mewn modd amhriodol a gall y Cyngor ddatgelu gwybodaeth a ddylai aros yn gyfrinachol yn ddamweiniol. | A.15. Dylai'r Cyngor sicrhau bod y broses o gymeradwyo defnyddio golygiadau yn cael ei dogfennu. Gellid ychwanegu'r canllawiau ychwanegol hyn at y canllawiau golygu sydd gan y Cyngor ar waith. Dylai'r canllawiau gofnodi pryd y dylai golygiadau orfod cael eu hawdurdodi gan uwch aelodau o’r tîm neu uwch reolwyr, er enghraifft gyda staff sydd eto i gael hyfforddiant arbenigol.<br><br>Dylid gosod mecanweithiau ar waith hefyd i’r uwch staff awdurdodi staff gweithredol profiadol, sydd wedi cael | Canolig |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| | | hyfforddiant priodol, i weithio heb oruchwyliaeth a heb fonitro’u defnydd o olygiadau. Dylai golygiadau fynd drwy broses o samplu ar hap i wirio’u hansawdd i sicrhau bod yr holl wybodaeth briodol yn cael ei golygu ac nad oes golygiadau’n cael eu defnyddio’n anghywir.<br><br>Bydd hyn yn helpu i roi sicrwydd i'r Cyngor, pan fo golygiadau’n cael eu defnyddio, eu bod yn cael eu defnyddio’n briodol a hynny’n amodol ar adolygiad ac awdurdodiad. | |
| Mae yna raglen hyfforddiant ymsefydlu, gyda mewnbwn gan yr adran Llywodraethu Gwybodaeth neu adran gyfatebol, sy'n cynnwys hyfforddiant cyffredinol ar sut mae FOI/EIR yn gymwys i'r awdurdod cyhoeddus, beth maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd i gydymffurfio, a sut i adnabod cais FOI/EIR. | A.16. Rhoddir taflen staff newydd i ddechreuwyr newydd yn y cyfnod ymsefydlu. Mae'n rhoi trosolwg lefel uchel i’r staff o Ryddid Gwybodaeth. Ar ben hyn, mae gan ddechreuwyr newydd fynediad at y polisïau a’r gweithdrefnau sydd gan y Cyngor ar waith. Ond, nid yw rhaglen hyfforddiant ymsefydlu'r Cyngor yn cynnwys hyfforddiant ffurfiol ynghylch Rhyddid Gwybodaeth ar sut mae FOI/EIR yn gymwys i'r Cyngor, beth mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd i gydymffurfio a sut i gydnabod cais FOI/EIR.<br><br>Os nad yw’r staff yn cael hyfforddiant ymsefydlu ar FOI/EIR, nid yw'r Cyngor wedi rheoli'r risg y byddan nhw’n | A.16. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod eu rhaglen ymsefydlu’n cael ei hadolygu a'i diweddaru i roi dealltwriaeth i bob cyflogai newydd o Ryddid Gwybodaeth ac EIR. Dylai'r hyfforddiant gynnwys digon o fanylion ar sut mae FOI/EIR yn gymwys i'r Cyngor, beth maen nhw’n ei wneud ar hyn o bryd i gydymffurfio a sut i gydnabod cais FOI/EIR. Rhaid i'r hyfforddiant hwn fod yn orfodol i bob cyflogai newydd.<br><br>Bydd hyn yn gwarantu bod gan ddechreuwyr newydd yr wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth. | Uchel |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| | gweithredu heb gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth. | | |
| Mae'r staff yn cael hyfforddiant gloywi ar ofynion FOI/EIR, gan gynnwys, lle bo'n briodol, diweddariadau ar sail penderfyniadau perthnasol yr ICO a'r Tribiwnlys Gwybodaeth. | A.17. Ar hyn o bryd does gan y Cyngor ddim hyfforddiant FOI/EIR ffurfiol i'r holl staff, sy'n cael ei adnewyddu o dro i dro. Tynnwyd sylw yn ystod y cyfweliadau nad yw rhai aelodau staff yn cofio'r tro diwethaf iddyn nhw gael unrhyw hyfforddiant FOI/EIR. Er hynny, mae'r ICO yn cydnabod bod y tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn darparu hyfforddiant anffurfiol i'r staff ond nid yw hyn wedi'i ddogfennu.<br><br>Heb hyfforddiant gloywi, mae perygl y bydd gwybodaeth y staff yn mynd yn hen neu'n cael ei hanghofio, gan arwain at dorri'r ddeddfwriaeth. | A.17. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod pob cyflogai yn cael hyfforddiant gloywi sy'n cynnwys FOI/EIR. Dylid adolygu'r hyfforddiant gloywi o dro i dro a'i ddiweddaru lle bo angen o ran cynwysfawredd a chywirdeb.<br><br>Dylai'r Cyngor olrhain cyfraddau cwblhau hyfforddiant gloywi i'r holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn gallu adnabod staff nad ydyn nhw'n cwblhau hyfforddiant gloywi yn gyson. Dylai'r hyfforddiant gynnwys, lle bo'n briodol, ddiweddariadau ar sail penderfyniadau perthnasol yr ICO a'r Tribiwnlys Gwybodaeth.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau bod y staff i gyd yn cael hyfforddiant gloywi priodol ac amserol. | Uchel |
| Mae yna hyfforddiant penodol i'r staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau am wybodaeth, ar FOI, EIR a'r Codau Ymarfer. | A.18. Mae rhai aelodau staff wedi cael hyfforddiant penodol ar FOI/EIR, er enghraifft aeth rhai cydlynwyr a rheolwyr Rhyddid Gwybodaeth i'r gweithdai a gyflwynwyd gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn 2023 a 2024. Ond mae staff eraill sydd â chyfrifoldeb am ymdrin â cheisiadau FOI/EIR heb gael unrhyw hyfforddiant arbenigol. | A.18. Dylai'r Cyngor adolygu a diweddaru eu hyfforddiant arbenigol ar FOI/EIR i sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen ar staff sydd â chyfrifoldeb am ymateb i geisiadau FOI/EIR. Ar ôl ei adolygu, dylai'r holl staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau FOI/EIR gwblhau'r hyfforddiant hwn. | Canolig |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| | Os nad oes gan y staff y sgiliau angenrheidiol i ymdrin â thasgau arbenigol, efallai y bydd y Cyngor yn gweithredu heb gydymffurfio. | Rhaid i'r hyfforddiant fod yn orfodol a dylid ei adnewyddu ar sail gyfnodol briodol gan staff perthnasol. Bydd hyn yn sicrhau bod staff sydd â chyfrifoldebau penodol yn cael hyfforddiant addas i roi'r sgiliau angenrheidiol iddyn nhw. | |
| Mae cofnodion yn cael eu cadw, naill ai'n ganolog neu gan reolwyr lleol, o'r hyfforddiant FOI/EIR a gafodd y staff. Mae'r cofnodion hyn yn cael eu monitro i sicrhau bod yr holl staff yn cael neu'n mynychu'r holl hyfforddiant perthnasol. | A.19. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn cadw cofnod canolog o'r hyfforddiant FOI/EIR y mae'r staff wedi'i gwblhau.<br><br>Os na all y Cyngor ddangos eu bod wedi darparu hyfforddiant, does ganddyn nhw ddim sicrwydd bod hyfforddiant cynhwysfawr wedi'i gynnal. Fyddan nhw ddim yn gallu cynnal gwiriadau, adolygiadau, na monitro'r cyfraddau cwblhau. | A.19. Rhaid i'r Cyngor sicrhau eu bod yn cadw cofnod canolog o'r holl hyfforddiant FOI/EIR sydd wedi'i gwblhau gan y staff. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ymsefydlu, hyfforddiant gloywi a hyfforddiant arbenigol. Dylai uwch reolwyr adolygu canrannau cwblhau hyfforddiant i sicrhau bod lefelau gofynnol addas yn cael eu cyrraedd.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau y gall y Cyngor ddangos eu bod wedi darparu hyfforddiant i'w staff. | Uchel |
| Mae'r staff yn cael nodiadau atgoffa cyson am sut i adnabod ceisiadau FOI/EIR. | A.20. Er bod y Cyngor yn anfon nodiadau atgoffa am FOI/EIR o dro i dro, gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu fel cylchlythyrau a bwletinau, nodwyd yn ystod y cyfweliadau y byddai atgoffa'n fwy cyson am sut i adnabod ceisiadau FOI/EIR yn fuddiol i'r staff.<br><br>Os nad yw'r staff yn adnabod ceisiadau, | A.20. Dylai'r Cyngor anfon cyfathrebiadau cyson fel negeseuon ebost neu gylchlythyrau sy'n atgoffa'r staff am sut i adnabod ceisiadau FOI/EIR ac ymateb iddyn nhw. Dylai nodiadau atgoffa parhaus fel posteri neu arbedwyr sgrin gael eu defnyddio o amgylch adeiladau'r Cyngor, lle bo modd, i atgoffa'r staff am sut i | Isel |

| Rhyddid Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesur rheoli** | **Y diffyg cydymffurfiaeth** | **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
| | efallai na fyddan nhw’n rhoi gwybod i'r Cyngor fod y cais wedi'i gyflwyno, a allai ei atal rhag cael ymateb o fewn yr amserlen statudol. | adnabod ceisiadau FOI/EIR ac ymateb iddyn nhw.<br><br>Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i sicrhau nad ydyn nhw’n methu cydymffurfio â deddfwriaeth trwy beidio ag ymateb i gais. | |

# Atodiadau

**Atodiad Un** – Disgrifiadau o Sgoriau Blaenoriaeth yr Argymhellion

| |
|---|
| **Argymhellion â Blaenoriaeth Frys**<br>Bwriad yr argymhellion hyn yw mynd i'r afael â risgiau sy'n risgiau clir ac uniongyrchol i allu'r rheolwr data i gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data. |
| **Argymhellion â Blaenoriaeth Uchel**<br>Mae'r argymhellion hyn yn mynd i'r afael â risgiau y dylid mynd i'r afael â nhw ar y cyfle cyntaf i liniaru'r siawns o dorri'r ddeddfwriaeth diogelu data. |
| **Argymhellion â Blaenoriaeth Canolig**<br>Mae'r argymhellion hyn yn mynd i'r afael â risgiau lefel ganolig y gellir mynd i'r afael â nhw dros gyfnod hirach neu lle mae rhai rheolaethau lliniaru eisoes ar waith, ond y gellid eu gwella. |
| **Argymhellion â Blaenoriaeth Isel**<br>Mae'r argymhellion hyn yn welliannau i'r rheolaethau presennol i sicrhau bod risgiau lefel isel yn cael eu lliniaru'n llawn neu lle rydym yn argymell y dylai'r rheolwr data sicrhau bod cynlluniau presennol yn cael eu cwblhau. |

# Cydnabod

## Tîm Archwilio'r ICO

Arweinydd Tîm yr ICO – David Guppy
Prif Archwilydd Ymgysylltu'r ICO – Luwi Mahenga


## Diolch

Hoffai'r ICO ddiolch i Helen Parry, Uwch Swyddog Diogelu Data Statudol, am ei chymorth yn yr ymrwymiad archwilio.


## Rhestr Ddosbarthu

Mae'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer Helen Parry, Uwch Swyddog Diogelu Data Statudol ac Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol ac Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

## Ymwadiad

Y rhai a ddaeth i'n sylw yn ystod yr archwiliad yn unig yw'r materion sy'n codi yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl feysydd y mae angen eu gwella.

Rheolwyr Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau rheoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol digonol ar waith.

Rydyn ni'n cymryd pob gofal rhesymol i sicrhau bod ein hadroddiad archwilio yn deg ac yn gywir ond allwn ni ddim derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw berson neu sefydliad, gan gynnwys unrhyw drydydd parti, am unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir neu gostau a ysgwyddir sy'n deillio o'r adroddiad hwn, neu mewn cysylltiad â defnyddio'r adroddiad hwn, sut bynnag y bydd colled neu ddifrod o'r fath yn cael eu hachosi. Allwn ni ddim derbyn atebolrwydd am golled a achosir i unrhyw berson neu sefydliad, gan gynnwys unrhyw drydydd parti, sy'n gweithredu neu'n ymatal rhag gweithredu o ganlyniad i unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn adroddiad eithriad ac mae at ddefnydd Cyngor Gwynedd yn unig. Mae'r meysydd rhychwant a'r rheolaethau yr ymdriniodd yr archwiliad â nhw wedi'u teilwra ar gyfer Cyngor Gwynedd ac, o ganlyniad, nid yw'r adroddiad archwilio wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio mewn cymhariaeth ag adroddiadau archwilio eraill gan yr ICO.